WGOS

# CYLCHLYTHYR

Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru
Wales General Ophthalmic Services

*14eg rhifyn*

## Croeso

***Cylchlythyr WGOS*** yw'r lle gorau i'ch cefnogi i gyflwyno WGOS. Bydd pob cylchlythyr yn rhoi crynodeb o bwnc penodol gyda dolenni i adnoddau a chymorth perthnasol. Gydag awgrymiadau a chyngor i'ch helpu i gyflwyno WGOS... ***rydym yma i chi.***



Mae WGOS yn dod ag ystod ehangach o wasanaethau gofal llygaid a ariennir gan y GIG a ddarperir gan optometryddion, Ymarferwyr Meddygol Offthalmig (OMPs) ac optegwyr dosbarthu yng Nghymru, gyda phob aelod o dîm y practis yn cydweithio i weithio ar frig eu trwydded glinigol berthnasol.

## Bydd cylchlythyr #14 yn canolbwyntio ar y canlynol: Cynllun Rheoli Cleifion (CRhC) GOCC

***Mae gwaith papur Cynllun Rheoli Cleifion GOCC ("CRhC GOCC") yn disodli Ffurflen Presgripsiwn GOS(W)2.***

### Mae'r CRhC;

- Wedi ei gynllunio mewn partneriaeth â chleifion. yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn ddeniadol yn weledol, gan annog perchnogaeth cleifion.
- Yn cefnogi'r optometrydd i ddarparu gofal cyfannol fel sy'n ofynnol ar gyfer archwiliad llygaid GOCC1, gan ddarparu negeseuon iechyd sy'n cynorthwyo atal a llesiant.
- Yn rhoi digon o gyfle i'r optometrydd gadarnhau cyngor iechyd ociwlar a chyfannol.

### Oes rhaid i mi?

**Gwyddom nad yw pob practis yn defnyddio'r ffurflen GOS(W)2 ar hyn o bryd. Gallwch ddefnyddio eich dyluniad eich hun ar gyfer CRhC GOCC cyn belled â bod y meini prawf canlynol yn cael eu hymgorfforri, neu y gellir eu hymgorfforri:**

- Mae angen yr holl elfennau ar bresgripsiwn, yn unol â'r Ddeddf Optegwyr.
- Negeseuon iechyd yn unol â CRhC GOCC.
- Cyfeirio at wefan Gofal Llygaid Cymru, Helpa Fi i Stopio, a Helpwch Ni i'ch Helpu Chi.
- Adran i ganiatáu cyngor pwrpasol ychwanegol.
  - Mae rhagor o ganllawiau ar hyn ar gael yn yr adran adnoddau cleifion ar wefan Gofal Llygaid Cymru.

**Pryd?**

- O 1 Ionawr 2025 bydd rhaid defnyddio CRhC GOCC (neu eich cynllun cymeradwy eich hun). Fodd bynnag, gallwch ddechrau defnyddio CRhC GOCC cyn gynted ag y bydd stociau'n cyrraedd cyn y dyddiad hwnnw. Efallai y byddai'n well gennych ddefnyddio hen stociau o GOS(W)2.

***Hen stoc?***
*Gofynnwn i chi gael gwared ar hen stoc segur yn arwahanol ac yn foesegol.*

## ? Cwestiynau allweddol

- A ydw i'n gyfrifol am gyhoeddi'r Cynllun Rheoli Cleifion yn fy mhractis?

- Os **'ydw'**, gweithredwch nawr i sicrhau mai eich cynnig i'r claf yw'r un cywir.
- Os **'nac ydw'** yw eich ateb i'r cwestiwn uchod, ymlaciwch ac arhoswch am y cylchlythyr nesaf.

## Crynodeb

**Beth?**

- Paratowch i newid eich ffurflenni presgripsiwn i CRhC GOCC!

**Pryd?**

- Y cynharaf? Pryd bynnag y byddwch yn eu derbyn.
- Y diweddaraf? 1 Ionawr 2025.

**Sut?**

- I gael yr holl gyngor yma ynghyd â dolenni i gopïau digidol o CRhC GOCC a'r codau QR ewch i'r adran Adnoddau Practis ar wefan Gofal Llygaid Cymru.

## Cadwch mewn cysylltiad!

Optometreg Cymru yw'r sefydliad ymbarél proffesiynol ar gyfer y proffesiynau iechyd llygaid gofal sylfaenol yng Nghymru. Gallant gynnig cymorth a chyngor i chi.

E-bost: Debbie.O'Sullivan@Optometrywales.com

I gael diweddariadau yn y dyfodol trwy e-bost, cofrestrwch eich cyfeiriad e-bost yn https://forms.office.com/e/4Kksq7sFpu neu tynnwch lun o'r cod QR isod gyda'ch ffôn clyfar.

Mae diweddariadau blaenorol ar gael yn:
https://www.nhs.wales/sa/eye-care-wales/wgos/wgos-newsletters/